

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 17/09/2021

STATWS: CYDYMFFURFIO / GWEITHREDU / GWYBODAETH

CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH

Teitl: Cyhoeddi'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch

Dyddiad dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad Amherthnasol

I'w weithredu gan:

Brif Weithredwyr
Holl Staff Iechyd a Gofal y GIG

Angen gweithredu erbyn:

Cymryd camau lleol i wella ansawdd a diogelwch cleifion mewn modd sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Genedlaethol ac sy'n bodloni gofyniad y Ddyletswydd Ansawdd a fydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2023

Anfonwr: Yr Athro Chris Jones, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol

Enw(au) Cyswllt GIG Llywodraeth Cymru :

Catherine Bridges, Datblygu Ansawdd Gofal Iechyd, Gofal Iechyd Poblogaethau, Llywodraeth Cymru – 03000 256427 – catherine.bridges@llyw.cymru

Dogfennau amgaaedig: Llythyr oddi wrth yr Athro Chris Jones

Yr Athro Chris Jones
Dirprwy Brif Swyddog Meddygol
Deputy Chief Medical Officer



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prif Swyddogion Gweithredol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Holl Staff Iechyd a Gofal y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG

17 Medi 2021

Annwyl Gyfeillion

Cafodd *Cymru Iachach* ei gyhoeddi yn 2018. Roedd y cynllun hwn yn disgrifio gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar ansawdd a diogelwch wrth ddarparu gofal iechyd ar draws Cymru. Bydd y *Fframwaith Ansawdd a Diogelwch*, sydd bellach wedi ei gyhoeddi, yn sbardun allweddol i sicrhau bod ansawdd a diogelwch yn gwbl ganolog i ddarpariaeth gofal iechyd y GIG, o ofal cymunedol drwodd i wasanaethau aciwt.

Mae'r *Fframwaith Ansawdd a Diogelwch* hwn yn golygu bod yn rhaid datblygu gwasanaethau'n seiliedig ar system rheoli ansawdd gadarn, sy'n cysylltu sicrhau ansawdd, cynllunio, a gwella yn barhaus. Mae'r pandemig COVID-19 wedi creu her llawer mwy i'r GIG o ran addasu a gwella gwasanaethau, ac eisoes newidiwyd gwasanaethau'n sylweddol yn ystod anterth y pandemig, gan barhau i ganolbwyntio ar y nod pedwarplyg sydd yn y cynllun *Cymru Iachach*.


Mae'n gosod cyfeiriad ar gyfer gweithredu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, gan roi pwyslais penodol ar y dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd sy'n dod i rym o fis Ebrill 2023. Mae'r *Fframwaith* yn helpu sefydliadau i ymbaratoi ar gyfer y Ddeddf.

A fydddech cystal â rhannu'r Fframwaith hwn â holl staff iechyd a gofal eich sefydliadau (mae'r ddolen wedi ei hatodi isod), gan barhau i weithredu ar sail gadarn yr ethos o sicrhau ansawdd da a darparu gofal diogel uwch law popeth arall.

<https://llyw.cymru/fframwaith-ansawdd-diogelwch-y-gig>

Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu ynglŷn â'r Rhaglen Genedlaethol a'r hyn y bydd yn ei olygu yn ymarferol ar ôl inni weithio drwy fanylion pwrpas, swyddogaeth, ac aelodaeth Bwrdd y Rhaglen Ansawdd a Diogelwch.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Chris Jones'.

YR ATHRO CHRIS JONES